# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Committee Room 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Llun, 14 Rhagfyr 2020

Amser: 09.30 - 11.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6478

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Tystion: | Jeremy Miles AS, Y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd<br>Anna Hind, Llywodraeth Cymru<br>Chris Warner, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Gruffydd Owen (Ymchwilydd)<br>Gareth Howells (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

## 2 Gorchymyn Arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor – Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Diwygio) 2021: Sesiwn dystiolaeth

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol mewn perthynas â'r Gorchymyn arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor.

## 3 Offerynnau a ystyriwyd yn flaenorol i'w sifftio ac sy'n awr yn destun craffu o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3

### 3.1 SL(5)677 – Rheoliadau Gwastraff (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 3.2 SL(5)684 – Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Contractau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Rhagnodi Cyffuriau etc.) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

## 4 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3

### 4.1 SL(5)679 – Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 4.2 SL(5)680 – Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (Rhestr o Sefydliadau Ôl-16 Arbennig Annibynnol) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 4.3 SL(5)687 – Rheoliadau Rhwymedigaethau Cyfrifoldeb Cynhyrchwyr (Gwastraff Deunydd Pacio) (Diwygio) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

### 4.4 SL(5)688 – Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ac roedd yn fodlon arno.

## 5 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 5.1 CLA464 – Gorchymyn y Rhestrau Ardrethu (Dyddiad Prisio) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 5.2 SL(5)658 – Rheoliadau Bwyd Anifeiliaid (Dibenion Maethol Penodol a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd, ac i dynnu sylw at faterion o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE.

### 5.3 SL(5)541 – Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) (Rhif 2) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.4 SL(5)670 – Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio etc) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.5 SL(5)358 – Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb y Llywodraeth, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.6 SL(5)664 – Rheoliadau Taliadau Uniongyrchol i Ffermwyr a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol etc.) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020

Instruments that raise no reporting issues under Standing Order 21.2 or 21.3 but have implications as a result of the UK exiting the EU

### 5.7 SL(5)682 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2021

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 5.8 SL(5)685 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.9 SL(5)690 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.10 SL(5)696 – Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad pellach ynghylch goblygiadau hawliau dynol y rheoliadau.

### 5.11 SL(5)698 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 4) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 5.12 SL(5)699 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Mangre Ysgol a Mangre Sefydliad Addysg Bellach) (Cymru) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd. Yn ogystal, cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru ynglŷn â lefel y wybodaeth sy'n cael ei chynnwys mewn memoranda esboniadol.

## 6 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE

### 6.1 SL(5)674 – Rheoliadau Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymwysterau) (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd i dynnu sylw at faterion sy'n codi o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd.

## 7 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 7.1 SL(5)662 – Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Iechyd Planhigion ac Organeddau a Addaswyd yn Enetig) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru.

## 8 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 8.1 WS-30C(5)59 - Rheoliadau'r Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (Y Cytundeb Ymadael) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

### 8.2 WS-30C(5)208 - Rheoliadau Bwyd a Diod (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwebaeth.

## 9 Papurau i'w nodi

### 9.1 Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol: Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol, a nodwyd iddo gael ei anfon yn unol â'r Cytundeb Cysylltiadau Rhyng-sefydliadol.

### 9.2 Llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd: Ymgynghoriad ar God Asesiad Effaith Rheoleiddiol diwygiedig ar gyfer Is-ddeddfwriaeth

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

### 9.3 Llythyr gan y Gweinidog Addysg: Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Addysg.

### 9.4 Llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol: Gorchymyn Ceisiadau Cynllunio (Addasiadau a Datgymhwyso Dros Dro) (Rhif 2) (Cymru) (Coronafeirws) 2020

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol.

## 10 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 11 Gorchymyn Arfaethedig yn y Cyfrin Gyngor - trafod y dystiolaeth

Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a gafwyd yn ystod y sesiwn gyda'r Cwnsler Cyffredinol a chytunodd i drafod ei adroddiad drafft mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol – trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol a chytunodd arno. Nododd y Pwyllgor y byddai'r adroddiad yn cael ei osod erbyn y dyddiad cau gofynnol.

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Fil yr Amgylchedd

Nododd y Pwyllgor Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Llywodraeth Cymru ar Fil yr Amgylchedd a chytunodd i drafod y prif faterion mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 14 Bil Marchnad Fewnol y DU – y wybodaeth ddiweddaraf

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd Bil Marchnad Fewnol y DU.

## 15 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 – y wybodaeth ddiweddaraf

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd.

## 16 Blaenraglen waith – Gwanwyn 2021

Trafododd y Pwyllgor ei Flaenraglen Waith ar gyfer y tymor nesaf.